

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

13 Medi 2021

SL(6)021 – Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfirwyr at Gostau Byw (Cymru) 2021

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn, a wneir o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, yn llywodraethu atebolrwydd dros fenthyciad myfirwyr sydd gan fyfirwyr amser llawn sy'n cael benthyciadau at gostau byw gan Weinidogion Cymru ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2021/2022.

At hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer dileu hyd at £1,500 o atebolrwydd benthyciwr am fenthyciad at gostau byw mewn amgylchiadau penodol, gydag effaith o'r diwrnod ar ôl y diwrnod y bernir bod ei ad-daliad cyntaf ar ei fenthyciad wedi ei dderbyn.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998

Fe'u gwnaed ar: 01 Gorffennaf 2021

Fe'u gosodwyd ar: 06 Gorffennaf 2021

Yn dod i rym ar: 01 Awst 2021

SL(6)022 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfirwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007"), Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017"), Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018") a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio darpariaethau yn Rheoliadau 2017 a Rheoliadau 2018 sy'n ymwneud â swm y cymorth cynhaliath sy'n daladwy i fyfyrwr cymwys drwy gyfeirio at y man lle y mae'n byw yn ystod y chwarteri y mae'r cymorth hwnnw yn daladwy ynddynt.



Mae'r diwygiadau yn darparu bod myfyriwr cymwys sy'n byw gyda'i rieni am reswm nad yw ond yn ymwneud â'r coronafeirws yn cael ei drin fel pe bai'n byw yn y lleoliad y byddai wedi bod yn byw ynddo oni bai am y rheswm hwnnw, oni bai bod y myfyriwr yn gofyn fel arall.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn cywiro gwallau teipograffyddol yn Rheoliadau 2007, Rheoliadau 2017, Rheoliadau 2018 a Rheoliadau 2019.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983, Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998

Fe'u gwnaed ar: 07 Gorffennaf 2021

Fe'u gosodwyd ar: 09 Gorffennaf 2021

Yn dod i rym ar: 01 Awst 2021

SL(6)025 – Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio) 2021

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012 ("Rheoliadau 2021").

Mae rheoliad 2(2) yn cael gwared ar y gofyniad i gais a wneir gan awdurdod cynllunio lleol i newid neu estyn adeilad rhestredig yn ei ardal gael ei gyfeirio at Weinidogion Cymru i'w benderfynu. Mae rheoliad 2(3) a (4) yn ganlyniadol ar reoliad 2(2).

Mae rheoliad 2(5) yn mewnosod dau baragraff yn rheoliad 9 o Reoliadau 2012. Mae'r paragraff (8) newydd yn darparu na chaiff y pwyllgor neu'r is-bwyllgor sy'n penderfynu ar gais gan yr awdurdod cynllunio lleol fod wedi ymwneud â rheoli'r adeilad. Mae'r paragraff (9) newydd yn darparu, pan fo cais gan yr awdurdod cynllunio lleol yn cael ei benderfynu gan yr awdurdod hwnnw, nad oes hawl i apelio.

Mae rheoliad 3 yn cynnwys darpariaeth drosiannol sy'n darparu y bydd unrhyw gais a wneir gan awdurdod cynllunio lleol i newid neu estyn adeilad rhestredig yn ei ardal cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym yn cael ei benderfynu gan Weinidogion Cymru.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

Fe'u gwnaed ar: 12 Awst 2021



Fe'u gosodwyd ar: 16 Gorffennaf 2021

Yn dod i rym ar: 16 Awst 2021

SL(6)036 – Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhif 2) 2021

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth yng ngoleuni'r ffaith bod y system Anghenion Dysgu Ychwanegol yn dod i rym mewn perthynas â rhai plant o 1 Medi 2021. Er enghraifft:

- Mae Rheoliadau Ysgolion Newydd (Derbyniadau) (Cymru) 2006 yn cael eu diwygio fel y gellir enwi ysgol newydd o dan adran 48 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yng nghynllun datblygu unigol plentyn. Hefyd, bydd yn ofynnol i'r sawl sy'n gyfrifol am dderbyniadau i'r ysgol honno dderbyn plentyn yn yr un modd â phe bai ysgol sefydledig yn cael ei henwi.
- Mae Rheoliadau Derbyniadau Ysgol (Meintiau Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013 yn ymdrin â'r terfyn ar faint dosbarthiadau ar gyfer dosbarthiadau babanod mewn ysgolion a gynhelir. Mae Rheoliadau 2013 yn cael eu diwygio fel bod y diffiniad o'r term "addysg addas" yn rhoi ystyriaeth i'r system anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r [Memorandwm Esboniadol](#) i'r Rheoliadau hyn yn darparu rhagor o wybodaeth ddefnyddiol ynghylch y diwygiadau a wneir i is-ddeddfwriaeth.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu darpariaethau is-ddeddfwriaeth a fyddai fel arall yn dod i ben neu'n ddiangen yng ngoleuni'r ffaith bod rhai o ddarpariaethau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn dod i rym ar 1 Medi 2021.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Medi 2021, i gyd-fynd â'r system ADY yn dechrau dod i rym.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Fe'u gwnaed ar: 10 Awst 2021

Fe'u gosodwyd ar: 11 Awst 2021

Yn dod i rym ar: 01 Medi 2021



SL(6)038 – Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) (Diwygio) 2021

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Bydd rheolau newydd yn ymwneud â fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol a wneir o hydrolysadau protein yn cael eu cymhwyso, ledled Prydain Fawr, o 22 Chwefror 2022.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gorfodi'r rheolau hynny yng Nghymru o 22 Chwefror 2022. Mae'r darpariaethau gorfodi yn darparu, er enghraifft, y gall awdurdodau lleol yng Nghymru arfer pwerau mynediad a chyflwyno hysbysiadau gwella i sicrhau cydymffurfedd â'r rheolau.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn darparu ar gyfer gorfodi'r rheolau sy'n gymwys i fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol tan 22 Chwefror 2022.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Diogelwch Bwyd 1990

Fe'u gwnaed ar: 25 Awst 2021

Fe'u gosodwyd ar: 26 Awst 2021

Yn dod i rym ar: 16 Medi 2021



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—
Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee